**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, ar 14eg Gorffennaf 2004 am 10.00am.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr R.E. Barton, J. Butterfield, J. Chamberlain Jones, D. Cooper, G.C. Evans, H.H. Evans, S. Frobisher, M.A. German, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.K. Hodgson, T.R. Hughes, N. Hugh-Jones, D. Jones, E.R. Jones, H. Jones, M.M. Jones, P.W. Owen, G.J. Pickering, N.P. Roberts, G.O. Rowlands, D.A.J. Thomas, S. Thomas, J. Thompson-Hill, M.A. Webster, C.H. Williams, R.Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Prif Swyddog Cynllunio (De), a Swyddog Gweinyddol (G. Butler) D. Bryn Jones (Cyfieithydd).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN**

Cynghorwyr N.J. Hughes a P. Dob.

**28 MATERION BRYS**

**29 PENODI CADEIRYDD**

Penodwyd y Cynghorydd Selwyn Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

**30 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodwyd y Cynghorydd Lloyd Williams yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r pwyllgor am ei ethol. Croesawodd y Cynghorwyr newydd ac aelodau o'r cyhoedd. Esboniodd y protocol ar gyfer siarad yn gyhoeddus a hysbysodd yr holl Aelodau, gan fod yna agenda hir, y disgwylir i'r Cynghorwyr gyfyngu eu sylwadau i sylwadau perthnasol ac i osgoi ailadrodd sylwadau a wnaed gan eraill.

**31 CEISIADAU AR GYFER CANIATÂD DATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd sydd ag angen penderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD** bod:-*

*(a) argymhellion y Swyddogion, fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir nawr, i roi caniatâd neu wrthod yn ôl yr achos, yn cael eu rhoi fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Digolledu, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig a Meysydd Cadwraeth)1990, i'r datblygiadau a gynigiwyd yn ôl y cynlluniau canlynol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Cais Cynllunio. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 02/2003/1052/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol gan Reolwr Gwarchod y Cyhoedd. |

Adeiladu ffordd gerbydau sengl, ddwy lôn yn cysylltu'r A525 o'r gylchfan yn ymyl y Farchnad Anifeiliaid i Lôn Parcwr, ynghyd â'r adeileddau a'r byndio cysylltiedig. [Cais Asesu Amgylcheddol].
Tir yng Nglasdir, Rhuthun.
Yn amodol ar Amod Newydd
19. Ni chaniateir dechrau ar y gwaith adeiladu'r ffordd hyd nes y ceir caniatâd ysgrifenedig gan awdurdod cynllunio lleol ynglyn â chynigion penodol, ar gyfer gwanhau swn trafnidiaeth, ac yna mewn perthynas â datblygiadau presennol ar dir cyfagos ac yn y dyfodol; i gynnwys fel bo angen ar gyfer byndio, ffensys acwstig, deunyddiau arwyneb priodol, tirweddu a phlannu a gwerthuso effaith y ffordd ar breswylwyr adeiladau cyfagos. Gweithredir manylion y cymeradwyo yn ei gyfanrwydd cyn dod â'r ffens a defnyddio'r ffordd.
Rheswm: Er budd a mwynderau'r preswylwyr a defnyddwyr adeiladau presennol, sy'n byw yn ymyl y ffordd ac adeiladau posibl yn y dyfodol.

03/2004/0559/PF

(Yr Ymgeisydd yw Cyngor Sir Ddinbych).
Datganodd y Cynghorydd D A J Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.
Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol gan Gyngor Tref Llangollen.
Codi cerflun ym Mhafiliwn Rhyngwladol, Ffordd Abaty, Llangollen.
Amod Diwygiedig 3:
3. bod yr hysbyseb presennol ar y safle'n cael ei symud cyn caniatáu codi'r cerflun.
(Gofynnwyd gan y Cynghorydd B. Barton rhoi ystyriaeth i arddangos deunydd perthnasol yn y Pwyllgor).

03/2004/0643/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol gan Gyngor Tref Llangollen.
Codi 4 cerflun "mynedfa".
Terfyn Deheuol o'r A539 Dwyrain o Langollen.

05/2004/0626/PF

Ar ôl ystyried newid i'r adroddiad – ni chafwyd cynrychiolaeth o Gyngor Tref Corwen.
Newid adeilad tu allan diangen i 1 ty annedd a gosod tanc septig newydd.
Pencoed Uchaf (Uned A) Ger Betws G G Corwen.
Yn amodol ar Amod Diwygiedig 4:
4. Cyn dechrau ar unrhyw waith, rhaid archwilio'r adeilad am adar ac ystlumod gan ymgynghorwyr arbenigol, a rhaid i'r adroddiad ac unrhyw gynigion ar gyfer mesurau lliniaru, gael eu cyflwyno i, a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid gweithredu unrhyw gynigion lliniaru ynglyn â'r datblygiad, yn unol â'r manylion cymeradwy.

05/2004/0627/PF

Ar ôl ystyried newid i'r adroddiad – ni chafwyd cynrychiolaeth o Gyngor Tref Corwen.
Newid adeilad tu allan diangen i 1 ty annedd a gosod tanc septig newydd.
Penycoed Uchaf (Uned B) Ger Betws G G Corwen.

08/2004/0628/PF

Ar ôl ystyried newid i'r adroddiad – ni chafwyd cynrychiolaeth o Gyngor Tref Corwen.

| | |
|---|---|
| | Newid adeilad tu allan diangen i 1 annedd a gosod tanc septig newydd.<br>(Uned Uchaf) Hafod Y Calch, Ger Cynwyd Corwen. |
| 18/2004/0526/PF | Ar ôl ystyried dim newid i'r adroddiad: derbyniwyd cynrychiolaethau o Gyngor Cymuned Llandyrnog.<br>Adeiladu annedd (manylion diwygiedig i'r heiny gymeradwywyd yn flaenorol a dechrau o dan rif cod 28/199.<br>Tir yn ymyl Coed Copi Fancer Llandyrnog Dinbych. |
| 22/2004/0280/PO | Datblygu tir ac adeiladu ty annedd a gwneud newidiadau i'r fynedfa cerbyd presennol (cais amlinellol).<br>Tir y tu ôl i Bodhyfryd Gellifor Rhuthun. |
| 24/2004/0272/PF | Adeiladu ystafell wydr i'w defnyddio mewn perthynas â busnes presennol a newid defnydd adeilad tu allan i gegin a chy fleusterau storio.<br>Drovers Arms Rhewl Rhuthun. |
| 28/2004/0371/PS | Manylion trefniadau sgrinio arfaethedig ar gyfer ffenestr drychiad ochr mewn perthynas ag amod rhif 2 cod caniatâd cynllunio rhif 28/2003/1292/PF.<br>10 Bryntirion Henllan Dinbych. |
| 40/2004/0513/PF | Llefarydd yn erbyn Cyngor Tref Bodelwyddan (J. Warner).<br>Ar ôl ystyried llythyrau cais ychwanegol gan yr Ymgeisydd; Chris Ruane AS a Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd.<br>Cadw bwyler nwy, gwaith trin dwr, tyrau oeri, offer rheweiddiad seilos (cais adolygol)<br>Hotpoint Ltd Parc Cinmel Ffordd Abergele Bodelwyddan Rhyl.<br>Amod Diwygiedig 1 a 2: Amod Newydd 3<br>1. O fewn un mis o ddyddiad y caniatâd cynllunio hwn, rhaid cyflwyno cynllun i, a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn rhoi asesiad o'r effaith posibl o'r gwaith a'r offer arfaethedig a chyflenwi deunyddiau i'r seilos, ac yn nodi'r darpariaethau sydd i'w gwneud i reoli swn fydd yn deillio o'r safle. Yna, ni ddylid ar unrhyw adeg fynd dros y gofynion na'r lefelau swn a gymeradwywyd fel y'i mesurir ar derfyn gogleddol y safle sy'n ffinio ag Artillery Row.<br>2. Ni ddylid cyflenwi deunyddiau i'r seilos (yn cynnwys dadlwytho deunydd i'r seilos), tu allan i'r oriau canlynol: 0900 i 1800 o'r gloch o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn, a dim o gwbl ar Ddydd Sul neu Wyl y Banc.<br>Amod 3: Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, rhaid lliwio'r seilos i gynllun lliw i'w gyflwyno a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig o fewn un mis o ddyddiad y penderfyniad.<br>Rhaid i'r lliw cymeradwy ei beintio o fewn dau fis i gymeradwyo'r cynllun lliw gan Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>(Rhaid hysbysu/ymgynghori â'r Aelod lleol ar yr amodau a osodwyd). |
| 40/2004/0599/PF | Adeiladu canolfan profi a chynnal a chadw cerbydau.<br>Llefarydd yn Erbyn:<br>Cyngor Tref Bodelwyddan (J Warner)<br>Llefarydd Dros:<br>Steve Kent (dros yr ymgeiswyr) |

Tir ar Barc Busnes Expressway Ffordd Abergele Bodelwyddan Rhyl
Amodau Diwygiedig 3, 6 a 9 ac amodau newydd 11 – 14.
3. Ychwanegu “nac ar unrhyw adeg ar Ddydd Sul na Gwyl y Banc ac eithrio mewn argyfwng”.
6. “ardaloedd troi”
9. “rhaid ei ledu i led 5 metr o leiaf”.
Amodau Newydd
11. Ni ddylid dechrau datblygu hyd nes cyflwyno i, a’u cymeradwyo’n ysgrifenedig gan Awdurdod Cynllunio Lleol, gynllun manwl tirlunio caled a meddal i’r safle, a rhaid i gynllun o’r fath gynnwys:
(a) yr holl goed presennol, gwrychoedd a llystyfiant arall ar y tir, manylion y rhai sydd i’w cadw, a’r mesurau ar gyfer eu diogelu yn ystod y datblygiad.
(b) coed newydd, gwrychoedd, prysglwyni neu lystyfiant newydd, gan gynnwys cadarnhau’r rhywogaethau, niferoedd, a lleoliad a’r amser plannu arfaethedig;
(c) y deunyddiau arfaethedig i’w defnyddio ar y dramwyfa (tramwyfeydd), llwybrau ac ardaloedd arwynebau caled eraill;
(d) gwrthgloddiau arfaethedig, graddoli a twmpathu’r tir a newidiadau mewn lefelau, cyfuchliniau terfynol a’r berthynas neu’r twmpathu arfaethedig i’r llystyfiant presennol a’r tirffurf oddi amgylch;
(e) lleoliadau arfaethedig, dyluniad, deunydd a math o driniaeth terfyn.
12. Rhaid gwneud holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, codi wal neu driniaeth arall a gynhwysir ym manylion cymeradwy tirlunio, yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf yn dilyn cwblhau’r datblygiad, a rhaid i unrhyw goed neu blanhigion fydd yn marw neu’n cael eu symud neu eu niweidio’n ddifrifol neu’n afiach o fewn cyfnod o bum mlynedd i’r datblygiad, gael eu hailblannu yn ystod y tymor plannu nesaf â rhai eraill o rywogaethau a maint tebyg.
13. Rhaid diogelu’r holl goed a gwrychoedd sydd i’w cadw fel rhan o’r datblygiad a ganiatawyd yn ystod clirio’r safle a gwaith adeiladu, gan ffens 1 metr o uchder wedi ei chodi 1 metr y tu allan i derfyn pellaf lledaeniad y gangen, neu’n unol â chynllun arall a gytunwyd yn ysgrifenedig gan Awdurdod Cynllunio Lleol; ni ddylid llosgi na gadael unrhyw ddeunydd adeiladu na nwyddau o unrhyw fath ar lawr rhwng boncyff neu wrych a ffensio o’r fath, ac ni ddylid o fewn yr ardaloedd hyn, godi neu ostwng lefel y tir, na chloddio ffosydd na rhediadau pibellau, heb yn gyntaf gael caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
14. Rhaid gosod unrhyw gyfleusterau storio olewau, tanwyddau neu gemegau ar sail anhydraidd, wedi eu hamgylchynu gan waliau bwnd anhydraidd. Rhaid i gyfaint y cyfansawdd byndio fod yn gywerth o leiaf â chynhwysedd y tanc plws 10%. Os oes yna fwy nag un tanc, dylai’r cyfansawdd fod o leiaf yn gyfwerth â chynhwysedd y tanc mwyaf, neu gynhwysedd cyfunol y tanciau cydgysylltiedig, plws 10%. Rhaid lleoli’r pwyntiau llenwad, fentiau, medryddion a gwydrau cadw golwg o fewn y bwnd. Rhaid selio system draeniad y bwnd gan sicrhau nad oes arllwysiad i unrhyw gwrs dwr, tir neu strata tanddaearol.
Atal llygru’r amgylchedd dwr.

40/2004/0653/PF

Datganodd y Cynghorwyr E.R. Jones a G.O. Rowlands D A J Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth.
Adeiladu ty annedd a garej ar gyfer gweithiwr amaethyddol a gosod gwaith trin carthion preifat.
Rhan o Gae Rhif 0002 Fferm Pengwern Ffordd Nant Y Faenol Bodelwyddan Rhyl.
Amod Diwygiedig 3
3. dileu "bydd yn gyfyngedig i ddeiliadaeth y ty annedd".

42/2003/1512/PC

Parhau defnyddio'r adeiladau fel Caffe Dosbarth A3 (cais adolygol).
Unedau 4 a 5 Stad Ddiwydiannol Craig Fawr, Talargoch Ffordd Galltmelyd Diserth Rhyl.
Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd
Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd
Gwelwyd bod arwyddion wedi eu gosod ar y briffordd yn agos at fynedfa i'r safle. A fyddwch mor garedig â symud yr holl arwyddion er mwyn osgoi'r angen i'r Cyngor i weithredu'n gyfreithiol ffurfiol.

43/2003/0341/PO

Datganodd y Cynghorydd M. German ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.
Llefarydd Dros:
Emyr Williams (Liberty Properties)
Ar ôl ystyried 4 llythyr cais ychwanegol oddi wrth: Cyngor Tref Prestatyn; Yr Ymgeisydd; Pennaeth Trafnidiaeth; Mouchel Parkman (dros Tesco).
Datblygu 4.1ha o dir drwy adeiladu unedau adwerthol bwyd ac arall (arwynebedd llawr 8400 m.sg. gros), swyddfa ddosbarthu swyddfa post, a chanolfan busnes ac adeiladu mynedfeydd i gerbydau a cherddwyr a mannau parcio a gwasanaethu (Cais amlinellol).
Tir yn Ffordd Nant Hall a Stryd Fawr Prestatyn.
Amod Diwygiedig 13:
"Dechrau Defnyddio"
Yn amodol ar 106 Rhwymedigaeth yn cynnwys y materion canlynol:-
i) gwaith priffordd oddi ar safle yn cynnwys gwelliannau i Lôn Eglwys a Ffordd Nant Hall/Stryd Fawr a chyffordd Ffordd y Bont/Stryd Fawr.
ii) darparu ar gyfer a/neu gyfraniad tuag at Ganolfan Gwybodaeth Twristiaid.
iii) gweithredu rhestr o weithiau ar gyfer adeilad gorsaf restredig i ganiatáu defnydd buddiol.
iv) gwelliannau safle i Gas Works Lane a rhwydwaith priffordd i hyrwyddo dolenni beics.
v) argaeledd y maes parcio ceir ar gyfer cyfuno tripiau canol tref i siopa.
vi) darparu system CCTV ar y safle i gysylltu â system canol y dref.
vii) darparu paneli gwybodaeth ar gyfer twristiaeth o flaen y safle.
viii) gwelliannau i Lôn Eglwys i wella mynedfa gwasanaeth y tu cefn i'r Scala.
ix) sicrhau dod â datblygiad cyflogaeth ymlaen, yr un pryd neu cyn y datblygiad adwerthol.

| | |
|---|---|
| 43/2004/0429/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol oddi wrth: Cyngor Tref Prestatyn.<br>Cywiriad i adroddiad "65 Ffordd Gronant" ac nid "63".<br>Adeiladu estyniad cegin ac ystafell fwyta y tu ôl i'r adeiladau.<br>Cartref Preswyl Priory House 61-63 Ffordd Gronant Prestatyn.<br>Dymunai'r Cynghorydd N. Hugh-Jones nodi ei fod wedi atal ei bleidlais. |
| 43/2004/0449/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol oddi wrth: Cyngor Tref Prestatyn.<br>Dymchwel y garej bresennol ac adeiladu garej newydd a storfa.<br>16 Glan Y Gors Prestatyn. |
| 43/2004/0463/PF | Ar ôl ystyried 2 llythyr cais ychwanegol oddi wrth: Cyngor Tref Prestatyn, Asiant yr Amgylchedd.<br>Trawsnewid ac addasu aqdeiladau tu allan i adeiladu 4 ty tref trillawr a 5 ty teras deulawr.<br>Adeiladau tai allan y tu ôl i Dy Tafarn Royal Victoria, 3 Ffordd Bastion Prestatyn.<br>Amod Diwygiedig 3 a 10<br>3. Dileu "parking areas shown as"<br>10. Anodi (a) (b) (c)<br>Amod Newydd 12:<br>Ni chaniateir dechrau datblygu hyd nes bod rhaglen a methodoleg ar gyfer gweithredu'r gwaith adeiladu ar y safle wedi eu cyflwyno i, a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig, gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a bod y fethodoleg yn cynnwys manylion amserau adeiladu. Rhaid gweithredu adeiladu'r datblygiad yn unol â rhaglen gymeradwy a methodoleg, oni bai bod cytundeb fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni chaniateir llosgi ar y safle yn ystod y cyfnod adeiladu.<br>Mae'r caniatâd yn amodol ar 106 rhwymedigaeth sy'n berthnasol i dai fforddiadwy. |
| 43/2004/0613/PF | Cadw estyniad i do dormer i ddarparu stydi llawr cyntaf â balconi i flaenolwg y ty annedd (diwygiedig i gais cyf: 43/2002/0639/PF).<br>60 Ffordd Gronant Prestatyn.<br>Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd<br>Dylech sicrhau bod y cynllun yn cael ei addasu yn unol â'r caniatâd cynllunio neu â'r caniatâd cynllunio blaenorol cyf. 43/2002/0639/PF mor fuan â phosibl, a dim hwyrach na 2 fis o ddyddiad y penderfyniad hwn, i osgoi erlyniad oherwydd methiant i gydymffurfio â'r rhybudd gorfodi.<br>Pleidleisiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones yn erbyn caniatâd cynllunio.<br>Ataliodd y Cynghorydd P. Owen ei bleidlais. |
| 44/2004/0454/AD | Arddangos 3 bwrdd hysbysebu datblygwyr ddi-oreuredig wedi eu gosod ar bolion.<br>Ysgol Iau Tir Morfa Ffordd Meliden Rhuddlan Rhyl. |
| 45/2004/0379/PF | Newid defnydd o siop Dosbarth A1 i swyddfa gwerthwr eiddo Dosbarth A.<br>164 Ffordd Rhuddlan Rhyl. |

| | |
|---|---|
| 45/2004/0448/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol oddi wrth: asiant yr ymgeisydd.<br>Adeiladu estyniad to ar ongl deulawr y tu ôl i dy annedd.<br>6 Bryntirion Avenue Rhyl. |
| 45/2004/0739/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol oddi wrth: Cyngor Tref Rhyl.<br>Trawsnewid adeilad oedd yn westy i 8 fflat hunangynhaliol.<br>69 Stryd West Parade Rhyl.<br>Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd<br>1. Tynnir eich sylw at Nodiadau Atodol Priffordd atodedig Rhifau 1, 3, 4, 5 a 10.<br>2. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N atodedig (Deddf Ffordd Newydd a Gwaith 1991). |
| 46/2004/0656/PF | Adeiladu estyniad to ar ongl llawr cyntaf dros y porth presennol.<br>5 Rhodfa Glenys Llanelwy.<br>Pleidleisiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones yn erbyn caniatáu cynllunio. |
| 47/2004/0236/A | Cadw estyniad lloc y tu blaen i'r adeiladau (cais adolygol).<br>Y Lladd-dy Ffordd Treffynnon Llanelwy.<br>Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd<br>A wnewch chi sicrhau os gwelwch yn dda bod yr amodau sydd ynghlwm â'r caniatâd cynllunio, ynghyd â'r holl ganiatâd blaenorol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â thirweddu, yn cael eu cydymffurfio â hwy. Fel arall, bydd y Cyngor yn debygol o weithredu camau gorfodi i sicrhau cydymffurfio â'r telerau hyn a'r caniatâd cynllunio blaenorol.<br>Dymuniad y Cynghorwyr oedd bod y swyddogion yn sicrhau bod cynllun tirweddu cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i gwmpasu'r caniatâd cynllunio hwn a'r rhai blaenorol e.e. y maes parcio a bod cydymffurfio â'r holl ganiatâd ac amodau blaenorol.<br>Ar ôl derbyn cynllun tirweddu cynhwysfawr gan gynnwys rhywogaethau naturiol lleol, y swyddogion i ymgynghori â'r Aelod lleol. |

**GWRTHODIADAU**

| | |
|---|---|
| 18/2004/0598/PO | Datblygu tir ar gyfer adeiladu tai annedd (cais amlinellol).<br>Tir yn Fferm Cinmel Llandyrnog Dinbych.<br>Llefarydd Cyhoeddus:<br>Mr G. Roberts (Dros)<br>Cynigiodd y Cynghorydd G.C. Evans ymweliad safle, ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Barton. Yn dilyn pleidlais, trechwyd y cynnig.<br>Dymunai'r Cynghorydd B. Barton nodi ei fod wedi atal ei bleidlais. |

*Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion, penderfynwyd GWRTHOD y ceisiadau canlynol am y rhesymau isod:-*

| | |
|---|---|
| 03/2004/0475/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol oddi wrth: y Cynghorydd S.A. Davies.<br>Diwygiadau i gynllun ar gyfer 23 ty annedd o dan Rhif Cod 03/2003/1340/PF yn ymwneud â newid 40 byngalos ar blot 10, 11, 20 a 21 i 4 ty annedd.<br>Tir i'r De o Greenacres Fron Bache Llangollen. |

Llefarwyr:
B. Jones (Yn Erbyn)
M. Gilbert (Dros)
Gwnaed y penderfyniad, oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, oherwydd y rhesymau canlynol:
Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol oedd bod lleoli cymaint o dai annedd mor agos i derfyn Fron Bache y safle, yn cael effaith llethol gweledol, yn lleihau'n annerbyniol fwynderau'r preswylwyr sy'n byw i'r gorllewin, ac yn effeithio'n andwyol ar gymeriad y lôn atyniadol hon.

45/2004/0542/PF

Ar ôl ystyried 3 llythyr cais ychwanegol oddi wrth:
R.W. Logan; Sumner Radio (deiseb gyda 450 o enwau); Ann Jones (AC).
Newid defnydd o bar-caffe (Dosbarth A3) i ganolfan ddydd (Dosbarth D1).
17/19 Stryd y Dwr Rhyl.
Llefarwyr Cyhoeddus yn Erbyn:
Mr Sumner
Mr F Burns
Gwnaed y penderfyniad, oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, oherwydd y rhesymau canlynol:
Byddai'r cynnig yn arwain at ddefnydd na fyddai'n cynnwys datblygiad adwerthol na masnachol o fewn terfyn Canolfan Tref Rhyl, ac y byddai, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn bychanu hyfywdra a bywiogrwydd canol y dref. Felly, byddai'r cynnig mewn gwrthdrawiad â Pholisïau *RET* 1 ac *RET* 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. Ystyrir hefyd y byddai'r defnydd yn debyg o arwain at weithgareddau yn agos i'r adeiladau, a fyddai'n gwneud yr ardal siopa a masnach yn lleoliad llai atyniadol i siopa a gweithgareddau canol tref eraill, gan achosi dirywiad pellach yn hyfywdra a bywiogrwydd yr ardal.
"Gan fod nifer gofynnol o aelodau angen pleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio DROS neu YN ERBYN argymhelliad y swyddogion i Ganiatáu Caniatâd Cynllunio.
Pleidleisiau Cofnodedig:
**DROS** ganiatáu caniatâd cynllunio **(1)** R.E. Barton
**YN ERBYN (18)** J. Butterfield, J. Chamberlain Jones, D. Cooper, G.C. Evans, H.H. Evans, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.R. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones, M.M. Jones, P.W. Owen, N.P. Roberts, G.O. Rowlands, D.A.J. Thomas, S. Thomas, J. Thompson-Hill, M.A. Webster.
**Atal** eu pleidlais **(3)** M.A. German, D. Jones, R.Ll. Williams.

**YMWELIADAU SAFLE**

09/2004/0564/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr cais ychwanegol oddi wrth:
Dr J.M a Mrs R.D. Roberts (YMGEISWYR).
Adeiladu adeilad tu allan i ffurfio uned llety gwyliau (caniatâd blaenorol ar gyfer trawsnewidiad a ganiatawyd o dan rif cod 09/2003/0553/PF).
Bwlch Bach Bwlch Isaf Llandyrnog Dinbych.
Llefarydd Cyhoeddus:
Dr J. Roberts (Dros)
Ymweliad safle i alluogi asesu materion polisi cynllunio a'r effaith ar dirwedd leol.

| | |
|---|---|
| 15/2004/0478/PO | Datblygu drwy adeiladu ty annedd (cais amlinellol).<br>Tir cyffiniol â Tyn Y Mynydd Abbeyland Llanarmon Yn Ial Yr Wyddgrug.<br>Am y rhesymau canlynol:<br>Gohirio ymweliad safle er mwyn caniatáu'r swyddogion i drefnu arolwg o bresenoldeb Madfallod Cribog |
| 16/2004/0377/PF | Ar ôl ystyried nad oedd cynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Llanbedr DC.<br>Gosod panel solar flaenolwg yn wynebu'r de ar y ty annedd presennol.<br>Hillside Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun.<br>Ymweliad safle er mwyn asesu effaith posibl y panel solar ar yr adeilad a chymeriad AOHNE. |
| 43/2004/0595/PO | Datblygu 0.03ha o dir drwy adeiladu un ty annedd ac adeiladu mynedfa caerbydau/cerddwyr (cais amlinellol).<br>Tir yn (rhan o ardd) 1 Bosworth Grove Prestatyn. |

**GOHIRIO**

| | |
|---|---|
| 47/2003/1481/PF | Datganodd y Cynghorydd H. Evans ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.<br>Adeiladu adeilad amaethyddol a ffurfio mynedfa gerbyd/<br>Pant Y Wacco *Part OS Field No. 6044* Ffordd Caerwys Rhuallt Llanelwy.<br>Gohiriwyd ymweliad safle ar gais y Swyddogion er mwyn cael rhagor o wybodaeth ynglyn â gweithgaredd amaethyddol ar y safle ac i ganiatáu asesiad pellach o'r fynedfa arfaethedig. |

**32 ESTYNIAD I ALLFA FFATRI TWEEDMILL, TREFNANT**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r Aelodau am yr apêl fydd yn cymryd lle o 21ain – 23ain Medi 2004, ac yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd yn yr ail gais cynllunio.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y cais, sydd yn ddarostyngedig i apêl, wedi ei wrthod gan y Cyngor Llawn, ac y byddai'n amhriodol i ofyn i Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio i fod yn bresennol ar ran y Cyngor.

Felly cynigir penodi Ymgynghorydd Cynllunio i gynrychioli'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *penodi ymgynghorydd cynllunio adwerthol a swyddog o'r Cyngor yn gweithredu fel tyst ar ran y Cyngor yn yr apêl arfaethedig.*

**33 ADOLYGIAD CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL SIR DDINBYCH**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r Aelodau o'r adolygiad ac yn gofyn am enwebiadau i eistedd ar y Gweithgor Adolygu.

Cytunodd yPwyllgor Craffu Amgylcheddol y dylai aelodaeth y Gweithgor gynnwys y canlynol:-

Yr Arweinydd (cwmpasu Adfywiad Economaidd)
Aelod Arweiniol yr Amgylchedd
Aelod Arweiniol Iechyd a Lles Cymdeithasol
5 Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio
1 Aelod o Bwyllgor Craffu Amgylchedd

1 Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau
ond y gallai pob Aelod fynychu ar sail ad hoc.
**PENDERFYNWYD** gan y Pwyllgor Cynllunio ei fod yn cael ei gynrychioli gan:
Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd (y ddau'n Aelodau'r Grwp Annibynnol)
A 5 aelod ychwanegol arall o'r Pwyllgor, - un o bob un o'r grwpiau gwleidyddol eraill.

**34 CDU SIR DDINBYCH**
**POLISI ADC 1 – PRIF GYNLLUN DE DDWYRAIN RHYL**

Cyflwynwyd Adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar y cynnydd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr eitem hon fel gwybodaeth.*

**35 DARGANFYDDIADAU AROLWG HOLIADUR TAI NEWYDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r Aelodau o ddarganfyddiadau'r holiadur drwy'r post.

Cyfradd ymateb oedd 42%.

***PENDERFYNWYD****: ei dderbyn fel gwybodaeth.*

**36 GORCHYMYN DEFNYDD DOSBARTHIADAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r Aelodau o'r newidiadau arfaethedig yng NGORCHYMYN DEFNYDD DOSBARTHIADAU.

***PENDERFYNWYD****: derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**37 YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH**

Cafwyd adroddiad llafar gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. .

Ymwelodd Tywysog Charles, Tywysog Cymru, Llywydd yr Ymddiriedolaeth Phoenix, â safle'r Ysbyty ar Ddydd Llun Gorffennaf 12ed July 2004 i lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynglyn â'r defnydd o safle ac adeiladau'r Ysbyty. Cylchlythyrwyd copi o anerchiad y Tywysog er gwybodaeth.

Awgrymwyd gan yr Aelodau y dylai Cyngor Tref Dinbych fod yn rhan o'r broses ymgynghori ac ail-ddatblygu.

Mynegwyd pryder am y difrod a wnaed gan fandaliaeth, a'r ofnau am ddiogelwch plant a allai fynd i mewn i'r adeiladau yn ystod gwyliau'r ysgol. Awgrymwyd bod trefniadau diogelwch gwell yn flaenoriaeth i atal mynediad.

**38 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL (CCA)**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan Swyddogion, yn hysbysu'r Aelodau o'r fformat dalennau rhydd newydd sydd ar gael ac sydd hefyd ar wefan Sir Ddinbych.

Teimlai rhai Aelodau bod copïau caled o CDU a CCA yn ddefnyddiol pan ar ymweliad safle, ac y dylent fod ar gael pan fyddai angen.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth ac i'r Aelodau hysbysu'r staff os ydynt eisiau* copïau caled o ddogfennau CDU a CCA.

**39 AWDURDODIADAU PWYLLGOR GORFODAETH – ADRODDIAD ADOLYGU ACHOS**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi manylion am achosion gorfodaeth a'r cynnydd ers hynny.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**40 DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn ceisio cymeradwyaeth am ymweliadau safle oedd yn codi o Eitem Agenda Rhif 2 a gynhelir ar 28$^{ain}$ Gorffennaf 2004. Hysbyswyd pwy oedd aelodau cyfredol y Panel Ymweliad Safle.

Ar gais y Cynghorydd N. Hugh-Jones cyflwynwyd dyddiadau eraill gan y swyddogion. Cynigiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones y dylid ystyried 19$^{eg}$ Gorffennaf. O'i roi i bleidlais, trechwyd y cynnig hwn.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr ymweliadau safle cymeradwy i'w cynnal ar 28$^{ain}$ Gorffennaf 2004.*

**41 RHESTR CEISIADAU A DDELIWYD Â NHW O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) o geisiadau ar gyfer Caniatâd Cynllunio a bennwyd ganddo o dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1$^{af}$ Mai 2004 a 11$^{eg}$ Mehefin 2004.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**Eitem RHAN II**

Gohiriwyd yr eitem hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm

**************